CARTREFI CONWY

# Cydlynydd Datblygu

## Proffil y swydd

### PWRPAS Y SWYDD

Cydlynu a rheoli gweithgareddau gweinyddu i gefnogi'r tîm datblygu i gyflawni ei gynlluniau, darparu gwiriad llinell flaen ar gyfer archwilio a chydymffurfio ar holl gamau adeiladu pob cynllun.

Cefnogi dulliau hybu a chyfathrebu eiddo newydd i reolaeth weithredol busnes o ddydd i ddydd.

Mewnbynnu data i fonitro llif arian mewn modd amserol ac amlygu trothwyon i osgoi oedi a chefnogi cydymffurfedd contract.

### HYD A LLED Y SWYDD

Mwyafswm o 10 cynllun yn fyw ar unrhyw dro

Cofnodion 4 x cyfarfod misol

System Datblygu TG wythnosol (Sequel)

### CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL

**Yn atebol i'r:** Partner Ased a Datblygu

**Rheolwr Atebol:** Amherthnasol

**Tîm:** Datblygu

**Allanol:** Contractwyr, ALl, strategaeth tai a Chynllunio, amgylchedd, ffyrdd a chyfleusterau. Llywodraeth Cymru – adran grantiau. Ymgynghorwyr Eiddo, Penseiri, Peirianwyr, Dylunwyr

**Mewnol:** Iechyd a Diogelwch, Cyfathrebu, Pennaeth Cymdogaeth, tîm Canfod Cartref, Cyllid (taliadau Gwasanaeth), tîm TG.

### FFOCWS A CHYFRIFOLDEBAU ALLWEDDOL

Casglu data a rhoi cefnogaeth i baratoi ceisiadau grant ac ymateb a rheoli gwybodaeth sydd ei hangen i ddiwallu camau grant ar gyfer tynnu cronfeydd i lawr

Cefnogi'r gweithgareddau gweinyddu a chydlynu gweithgareddau ar gyfer ymgynghori, briffio a monitro holl weithgareddau datblygu.

Cefnogi'r tîm datblygu i gasglu a chynhyrchu data ar gyfer adroddiadau mewnol ac allanol

Unwaith mae eiddo mewn rheolaeth sicrhau bod eiddo ac asedau newydd yn cael eu cynnwys ar systemau (TG, Cyllid, Biliau Cyfleustodau ar gyfer eiddo gwag, taliadau gwasanaeth, cyswllt



THE SUNDAY TIMES 100 BEST NOT-FOR-PROFIT ORGANISATIONS TO WORK FOR 2018

disability confident EMPLOYER

tenant, gwasanaethau ôl ofal ac ati a sicrhau trefniadau gwasanaeth a chynnal a chadw ar gyfer eiddo newydd).

Gweinyddu rhagweithiol i sicrhau bod dogfennau allweddol ar gyfer archwilio a chydymffurfio a chefnogi i gyflawni dyletswyddau'r cleient o dan reoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladau.

Gweinyddu a rheoli mewnbwn cywir a chadw holl ddata ar y system Datblygu (Sequel) ar gyfer monitro hyfywedd ariannol a sicrhau y cydymffurfir â chontract.

Gweinyddiaeth effeithiol cyn-gontract, yn ystod dogfennaeth adeiladu ac ôl-gontract (cytundebau cyfreithiol, gwarant, taliadau gwasanaeth, prisiadau, argymhellion ac ati).

# Manylion am yr Unigolyn

**CYMWYSTERAU**

Mae'r term amgylchedd adeiledig yn cyfeirio at yr amgylchedd sy'n darparu lleoliad ar gyfer gweithgaredd dynol, yn amrywio o ran graddfa o adeiladau i barciau. Cafodd ei ddiffinio fel "gofod a wnaed lle mae pobl yn byw, gweithio a hamddena o ddydd i ddydd'

Mae cymhwyster cydnabyddedig sy'n ymwneud â'r 'Amgylchedd Adeiledig' yn ddymunol ond nid hanfodol.

**PROFIAD**

| **Hanfodol** | **Aseswyd gan:** |
|---|---|
| - Profiad blaenorol o ddarparu gwasanaeth gweinyddu o lefel uchel | Ffurflen Gais (FfG), Cyfweliad (C) |
| - Profiad o gydlynu ystod o dasgau ar unrhyw adeg gyda chydweithwyr ar bob lefel ar draws timau gwahanol | FfG/C |
| - Profiad o weithio o fewn paramedrau a gweithdrefnau sefydlog | FfG/C |
| - Profiad o fewnbynnu data, adalw a thrin o systemau TG pwrpasol | FfG/C |
| - Profiad o weithio i ddyddiadau cau a rheoli llwyth gwaith prysur | FfG/C |
| **Dymunol** | |
| - Profiad o weithio o fewn maes sy'n ymwneud â thai, eiddo neu ddatblygu. | FfG/C |
| - Profiad o gysylltu â chontractwyr a phartneriaid ar ystod o faterion sy'n ymwneud â datblygu | FfG/C |

**GWYBODAETH A SGILIAU**

| **Hanfodol** | **Aseswyd gan:** |
|---|---|
| - Gwybodaeth am Microsoft Word ac Excel (lefel ganolradd) | Gallu i brofi |
| - Gallu gweithio ar liwt eich hun i sicrhau eich bod yn cyrraedd dyddiadau cau a bod prosiectau yn datblygu | FfG/C |
| - Sgiliau cymryd cofnodion effeithiol | C |
| - Sgiliau trefnu ardderchog a sylw i fanylder | FfG/C |
| - Sgiliau cyfathrebu, rheoli perthnasoedd a gwasanaeth cwsmeriaid da | C |
| **Dymunol** | |
| - Gwybodaeth am sut mae contractwyr yn gweithio, iechyd a diogelwch a rheoliadau datblygu | C |